**Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn (147)**
**Dydd Mawrth, 28 Mehefin 2005**

# AGENDA

## Bydd y cyfarfod yn dechrau am 2.00pm

## Eitem 1

**Cynnig i ohirio'r Rheolau Sefydlog**

**NNDM2510 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Rheol Sefydlog 37.5:

1. Yn gohirio Rheol Sefydlog 6.13, a

2. Yn gohirio'r rhan honno o Reol Sefydlog 5.4 sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Datganiad Busnes fod yn amserlen gytûn ar gyfer busnes y Cynulliad ar gyfer yr wythnos ganlynol, a hynny i ganiatáu i:

> NNDM2507 i sefydlu'r Pwyllgor ar y Papur Gwyn – Trefn Lywodraethu Well i Gymru;
>
> NNDM2508 i ethol Aelodau i'r Pwyllgor; ac
>
> NNDM2509 i gynnig newidiadau i'r Rheolau Sefydlog mewn perthynas â'r Pwyllgor arfaethedig;
>
> gael eu hystyried yn y cyfarfod llawn ddydd Mawrth 28 Mehefin.

3. Yn gohirio Rheol Sefydlog 6.14 i ganiatáu i unrhyw welliannau i NNDM2507 ac NNDM2509, a osodir cyn 5.00pm ddydd Llun 27 Mehefin 2005, gael eu hystyried yn y cyfarfod llawn ddydd Mawrth 28 Mehefin 2005.

**.......................................**

## Eitem 2

### Sefydlu Pwyllgor ar y Papur Gwyn - Trefn Lywodraethu Well i Gymru

**NNDM2507 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 8.1:

1. Yn sefydlu Pwyllgor Ymgynghorol ar "Trefn Lywodraethu Well i Gymru" (Cm 6582) fel ei fod yn berthnasol i strwythur newydd arfaethedig y Cynulliad a'i bwerau deddfwriaethol arfaethedig;

2. Teitl y pwyllgor fydd y Pwyllgor ar y Papur Gwyn - Trefn Lywodraethu Well i Gymru;

3. Bydd aelodaeth y Pwyllgor yn cynnwys saith Aelod o'r Cynulliad, tri o'r Blaid Lafur, un o Blaid Cymru, Plaid Geidwadol Cymru a Phlaid Democratiaid Rhyddfrydol Cymru a'r Llywydd a fydd yn cadeirio'r Pwyllgor;

4. Y cylch gorchwyl ar gyfer y Pwyllgor ar y Papur Gwyn - Trefn Lywodraethu Well i Gymru fydd:

i) Ystyried y cynigion a nodwyd yn y Papur Gwyn i'r graddau eu bod yn berthnasol i strwythur newydd arfaethedig y Cynulliad a'i bwerau deddfwriaethol arfaethedig; a

ii) Cymryd tystiolaeth gan sefydliadau ac unigolion sydd â diddordeb uniongyrchol yn strwythur newydd arfaethedig y Cynulliad a'i bwerau deddfwriaethol arfaethedig.

5. Bydd y pwyllgor yn cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol erbyn 19 Medi 2005 fan bellaf, ac yna bydd yn peidio â bod ar 19 Medi 2005.

Gellir darllen copi o 'Trefn Lywodraethu Well i Gymru' ar yr cyswllt canlynol:
http://www.walesoffice.gov.uk/2005/better_governance_for_wales_report.pdf
http://www.swyddfa.cymru.gov.uk/2005/trefn_lywodraethu_well_i_gymru.pdf

......................................

## Eitem 3

### Ethol Aelodau i'r Pwyllgor ar y Papur Gwyn - Trefn Lywodraethu Well i Gymru

**NNDM2508 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 8.4, yn ethol yr Aelodau canlynol i'r Pwyllgor ar y Papur Gwyn Trefn Lywodraethu Well i Gymru:

Dafydd Elis-Thomas (Llywydd)
Jane Hutt (Llafur)

Lorraine Barrett (Llafur)
Carl Sargeant (Llafur)
Jocelyn Davies (Plaid Cymru)
David Melding (Ceidwadwyr)
Kirsty Williams (Democratiaid Rhyddfrydol)

ac yn ethol y Llywydd i fod yn Gadeirydd y Pwyllgor.

.....................................

## Eitem 4

**Adolygu'r Rheolau Sefydlog**

**NNDM2509 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheolau Sefydlog 37.1 a 37.4:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes i adolygu Rheolau Sefydlog, a osodwyd yn y swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 23 Mehefin 2005;

2. Yn cytuno i adolygu'r Rheolau Sefydlog fel y nodwyd yn adroddiad y Pwyllgor Busnes; ac

3. Yn cytuno y bydd yr adolygiadau o'r Rheolau Sefydlog hyn yn peidio â bod ar 30 Hydref 2005.

.....................................

## Eitem 5

**Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru**
Y Cwestiynau

.....................................

## Eitem 6

**Datganiad Busnes**
Y Datganiad Busnes Drafft

.....................................

**Datganiad gan y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon: Ganolfan Mileniwm**

**Cymru**

.....................................

## Eitem 7

*Ni chynhelir dadl ar yr eitem hon. Cynhelir pleidlais arni'n syth.*

**Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefyldog 24.25, 25.13 a 25.14: The NHS Business Services Authority (Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG) Order 2005**

**NDM2500 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reolau Sefydlog 24.25, 25.13 a 25.14:

1. Yn cymeradwyo drafft o'r NHS Business Services Authority (Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG) Order 2005 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 21 Mehefin 2005; a

2. Yn nodi'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Gorchymyn hwn a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 21 Mehefin 2005.

Dogfennau Ategol
NHS Business Services Authority (Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG) Regulations 2005 - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*
Memorandwm Esboniadol - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*

.....................................

## Eitem 8

*Ni chynhelir dadl ar yr eitem hon. Cynhelir pleidlais arni'n syth.*

**Cynnig i gymeradwyo o dan Reolau Sefydlog 24.25, 25.13 a 25.14: The NHS Business Services Authority (Awdudrdod Gwasanaethau Busnes I GIG) (Establishment and Constitution) Order 2005**

**NDM2499 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reolau Sefydlog 24.25, 25.13 a 25.14:

1. Yn cymeradwyo drafft o’r NHS Business Services Authority (Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG) (Establishment and Constitution) Order 2005 y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau’r Cynulliad ar 21 Mehefin 2005; a

2. Yn nodi’r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Gorchymyn hwn a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau’r Cynulliad ar 21 Mehefin 2005.

Dogfennau Ategol
The NHS Business Services Authority (Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG) (Establishment and Constitution) Order 2005 - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*
Memorandwm Esboniadol - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*

.....................................

## Eitem 9

*Ni chynhelir dadl ar yr eitem hon. Cynhelir pleidlais arni’n syth.*

**Cynnig i gymeradwyo o dan Reolau Sefydlog 24.25, 25.13 a 25.14: The NHS Blood and Transplant (Gwaed a Thrawsblaniadau`r GIG) Regulations 2005**

**NDM2501 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reolau Sefydlog 24.25, 25.13 a 25.14:

1. Yn cymeradwyo drafft o’r NHS Blood and Transplant (Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG) Regulations 2005 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau’r Cynulliad ar 21 Mehefin 2005; a

2. Yn nodi’r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Gorchymyn hwn a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau’r Cynulliad ar 21 Mehefin 2005.

Dogfennau Ategol
The NHS Blood and Transplant (Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG) Regulations 2005 - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*
Memorandwm Esboniadol - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*

.....................................

## Eitem 10

*Ni chynhelir dadl ar yr eitem hon. Cynhelir pleidlais arni'n syth.*

**Cynnig i gymeradwyo o dan Reolau Sefydlog 24.25, 25.13 & 25.14 The NHS Blood and Transplant (Gwaed a Thrawsblaniadau`r GIG) (Establishment and Constitution) Order 2005**

**NDM2502 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reolau Sefydlog 24.25, 25.13 a 25.14:

1. Yn cymeradwyo drafft o'r NHS Blood and Transplant (Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG) (Establishment and Constitution) Order 2005 y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 21 Mehefin 2005; a

2. Yn nodi'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Gorchymyn hwn a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 21 Mehefin 2005.

Dogfennau Ategol
The NHS Blood and Transplant (Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG) (Establishment and Constitution) Order 2005 - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*
Memorandwm Esboniadol - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*

**.....................................**

## Eitem 11

*Ni chynhelir dadl ar yr eitem hon. Cynhelir pleidlais arni'n syth.*

**Cynnig i gymeradwyo o dan Reolau Sefydlog 24.25, 25.13 a 25.14 Rheoliadau Plaleiddiaid (Lefelau Gweddillion Uchaf mewn Cnydau, Bwydydd a Phorthiant) (Cymru a Lloegr) (Diwygio) (Rhif 2) 2005**

**NDM2503 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Yn cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reolau Sefydlog 24.25, 25.13 a 25.14:

1. Yn cymeradwyo drafft Rheoliadau drafft Plaleiddiaid (Lefelau Gweddillion Uchaf mewn Cnydau, Bwydydd a Phorthiant) (Cymru a Lloegr) (Diwygio) (Rhif 2) 2005 y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 21 Mehefin 2005; a

2. Yn nodi'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Gorchymyn hwn a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 21 Mehefin 2005.

Dogfennau Ategol
Rheoliadau Plaleiddiaid (Lefelau Gweddillion Uchaf mewn Cnydau, Bwydydd a Phorthiant) (Cymru a Lloegr) (Diwygio) (Rhif 2) 2005 - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*
Memorandwm Esboniadol - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*

......................................

## Eitem 12

*Ni chynhelir dadl ar yr eitem hon. Cynhelir pleidlais arni'n syth.*

**Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25**

**NDM2496 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 24.25:

1. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 21 Mehefin 2005 ar Reoliadau drafft Cyfrifon Dysgu Unigol Cymru (Diwygio) 2005; a

b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau drafft Cyfrifon Dysgu Unigol Cymru (Diwygio) 2005 yn cael eu gwneud yn unol â:
i) y rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Mehefin 2005; a
ii) yr arfarniad rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mehefin 2005; a
iii) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 21 Mehefin 2005.

Dogfennau Ategol
Rheoliadau Cyfrifon Dysgu Unigol Cymru (Diwygio) 2005
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Yr Arfarniad Rheoliadol - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*
Y Memorandwm Cywiriadau

2. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 21 Mehefin 2005 ar Reoliadau drafft y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Diwygio) (Cymru) 2005; a

b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau drafft y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Diwygio) (Cymru) 2005 yn cael eu gwneud yn unol â:
i) y rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mehefin 2005; a
ii) yr arfarniad rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Mehefin 2005; a

iii) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 21 Mehefin 2005.

Dogfennau Ategol
Rheoliadau y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Diwygio) (Cymru) 2005
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Yr Arfarniad Rheoliadol - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*
Y Memorandwm Cywiriadau

3. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 21 Mehefin 2005 ar Reoliadau drafft Gwaith Stryd (Rhannu Costau Gwaith) (Cymru) 2005 a

b) yn cymeradwyo bod y Rheoliadau drafft Gwaith Stryd (Rhannu Costau Gwaith) (Cymru) 2005 yn cael eu gwneud yn unol â:
i) y rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mehefin 2005; a
ii) yr arfarniad rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Mehefin 2005; a
iii) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 21 Mehefin 2005.

Dogfennau Ategol
Rheoliadau Gwaith Stryd (Rhannu Costau Gwaith) (Cymru) 2005
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Yr Arfarniad Rheoliadol - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*
Y Memorandwm Cywiriadau

**.....................................**

## Eitem 13

**Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Pysgota am Gregyn Bylchog (Cymru) 2005**

**NDM2498 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Pysgota am Gregyn Bylchog (Cymru) 2005 y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Mehefin 2005.

**NDM2497 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 21 Mehefin mewn perthynas â Gorchymyn drafft Pysgota am Gregyn Bylchog (Cymru) 2005; a

2. Yn cymeradwyo bod Gorchymyn Pysgota am Gregyn Bylchog (Cymru) 2005 yn cael ei wneud yn unol â:
a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Mehefin 2005; a
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Mehefin 2005; a
c) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 21 Mehefin 2005.

Dogfennau Ategol
Gorchymyn Pysgota am Gregyn Bylchog (Cymru) 2005
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Yr Arfarniad Rheoliadol - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*
Y Memorandwm Cywiriadau

.....................................

## Eitem 14

**Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Deddf Argyfyngau Sifil 2004 (Cynllunio Rhag Argyfyngau) 2005 o dan Reol Sefydlog 26**

**NDM2504 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 26, yn cytuno bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud Rheoliadau Deddf Argyfyngau Sifil 2004 (Cynllunio rhag Argyfyngau) 2005, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 21 Mehefin 2005.

Mae perthnasedd y Gorchymyn yng Nghymru yn ddarostyngedig i gydsyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Gosodwyd y Memorandwm Esboniadol yn y Swyddfa Gyflwyno ac fe'i e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 21 Mehefin 2005.

Dogfennau Ategol
Rheoliadau Deddf Argyfyngau Posibl 2004 (Cynllunio rhag Argyfyngau) 2005 - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno. Ni fydd y ddogfen ar gael ar We'r Siambr*
Memorandwm Esboniadol - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno.*

.....................................

## Eitem 15

**Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan Reoliadau'r Cynllun Masnachu Gollyngiadau Nwyon Ty Gwydr 2005 i Brif Weinidog Cymru**

**NDM2493 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan adran 62 (1) (b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo holl swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol a gynhwysir yn neu o dan y Reoliadau'r Cynllun Masnachu Gollyngiadau Nwyon Ty Gwydr 2005 i Brif Weinidog y Cynulliad, ac eithrio'r rhai na ellir yn ôl y gyfraith eu dirprwyo yn y modd hwnnw:

Ni fydd dim yn y cynnig hwn yn lleihau goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn nac yn lleihau rôl Pwyllgorau'r Cynulliad wrth arfer y swyddogaethau uchod.

Caiff y swyddogaethau hyn eu dirprwyo gan wybod y caiff y swyddogaethau hynny, fel y bo'n briodol, eu dirprwyo ymhellach i Weinidog priodol y Cynulliad ac i'r staff.

Dogfennau Ategol
*Gellir dod o hyd i gopi o Reoliadau'r Cynllun Masnachu Gollyngiadau Nwyon Ty Gwydr 2005 ar y rhyngrwyd drwy ddefnyddio'r cyswllt atodedig: http://www.opsi.gov.uk/si/si2005/20050925.htm - Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno. Ni fydd y ddogfen ar gael ar We'r Siambr.*

**.......................................**

## Eitem 16

**Dadl a enwebwyd gan Blaid Geidwadol Cymru**

**NDM2494 David Melding (Canol De Cymru)**

Yn gorchymyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru roi'r gorau i'w chynlluniau i drosglwyddo'r staff sy'n gyfrifol am ddarparu cynlluniau amaeth-amgylcheddol, yn arbennig Tir Gofal, o Gyngor Cefn Gwlad Cymru i gyflogaeth uniongyrchol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**
*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau canlynol at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cynnal yn unigol:*

**(1)**
**(2+3)**

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Dileu popeth ar ôl "Cymru" ac ychwanegu:
"gynnal adolygiad trylwyr o bob corff cyhoeddus yn y maes amgylcheddol a cheisio pwerau sylfaenol os bydd angen er mwyn creu system gydgysylltiedig gydag un corff rheoleiddio ymgynghorol yn cynnwys swyddogaethau y mae Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru yn ymgymryd â hwy ar hyn o bryd, gan ddod â'r holl swyddogaethau gweithredol o dan reolaeth ddemocrataidd uniongyrchol."

**Gwelliant 2 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig
Yn gresynu wrth anallu'r Gweinidog i wario derbyniadau wedi'u modiwleiddio wrth iddynt gael eu tynnu i lawr.

**Gwelliant 3 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig
Yn gresynu wrth y toriadau i gyfraddau Tir Gofal ac yn pwyso iddynt gael eu gwyrdroi.

**.....................................**

## Eitem 17

**Cynnig i gymeradwyo'r Datganiad Amserlen Gyfnodol**

**NDM2495 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan weithredu o dan reol sefydlog 5.1, yn nodi amserlen 4 mis arfaethedig Busnes y Cynulliad a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 21 Mehefin 2005.

Dogfennau Ategol
Amserlen 4 mis arfaethedig Busnes y Cynulliad - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno. Ni fydd y ddogfen ar gael ar We'r Siambr*

**.....................................**

**Rhagwelir y bydd y cyfarfod yn dod i ben erbyn 5.30pm**

....................................

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 2.00pm**

**ddydd Mercher, 29 Mehefin 2005**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**